Service to the community | People | Gwasanaeth Tân ac Achub Fire and Rescue Service | Striving for excellence | Diversity and inclusivity

# RHEOLWR GORSAF YR YSTAFELL REOLI
# PROSES BWRDD DYRCHAFIADAU

**Rheolwr Gorsaf B: £59,325 (datblygu)**
**£65,438 (cymwys) y flwyddyn, yn cynnwys lwfansau**
**Y Ganolfan Gyfarthrebu ar y Cyd, Llanelwy**
**Agored i ymgeiswyr mewnol ac allanol**

Mae byw a gweithio yng Ngogledd Cymru'n cynnig amgylchedd ardderchog i unrhyw un sy'n ceisio gwell ansawdd bywyd. Mae'r ardal yn cael ei hystyried ers tro fel un o'r lleoedd harddaf yn y DU, ac mae ganddi lawer i'w gynnig, yn enwedig o ran gweithgareddau awyr-agored, a gweithgareddau diwylliannol a hamdden.

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru eisiau canfod unigolion addas ar gyfer rolau Rheolwyr Gorsaf (B) yr Ystafell Reoli. Mae proses y bwrdd dyrchafu yn galluogi ymgeiswyr llwyddiannus i fod yn gymwys i gael eu penodi o fewn cyfnod o 12 mis neu nes bydd proses newydd yn cychwyn. Yn unol â thelerau ac amodau'r Llyfr Llwyd, gellir cyfnewid y penodiadau ag unrhyw swydd arall o'r un rôl yn Adran yr Ystafell Reoli.

Gwahoddir ceisiadau gan Reolwyr Gwylfa sylweddol a chymwys a Rheolwyr Gorsaf presennol sy'n cael eu cyflogi mewn Gwasanaeth Tân ac Achub Awdurdod Lleol yn y DU sydd â chymhwysedd yn y sector yn yr Ystafell Reoli. Bydd yr Ymgeisydd llwyddiannus hefyd yn darparu gwasanaeth gweithredol ar gyfer yr Ystafell Reoli yn hyblyg.

Bydd angen i ymgeiswyr fod yn arweinwyr eithriadol a all wneud cyfraniad sylweddol at reolaeth yr Ystafell Reoli a staff. Yn ddelfrydol, felly, bydd ymgeiswyr yn gallu dangos tystiolaeth o record gref, gredadwy o arweinyddiaeth, profiad a chyflawniad.

Bydd gofyn i ymgeiswyr gwblhau ffurflen gais lawn ar ôl darllen y nodiadau canllaw yn ofalus mewn perthynas â darparu tystiolaeth yn erbyn yr holl feini prawf hanfodol ym manyleb y person. Bydd gofyn i ymgeiswyr roi cyflwyniad 15 munud (rhoddir gwybod am bwnc y cyflwyniad wrth gadarnhau lle ar y rhestr fer) ac ateb cwestiynau mewn perthynas â'r cyflwyniad a roddwyd a gofynion y rôl.

Er nad oes angen rhuglder, mae rhai sgiliau Cymraeg yn ofyniad i'r swydd hon. Os nad oes gan ymgeiswyr y sgiliau hyn ar ôl eu penodi, byddant yn cael eu cefnogi'n llawn i ddatblygu sgiliau Cymraeg sylfaenol o fewn 12 mis neu eu penodiad. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am lefel y sgiliau hyn yn y fideo hwn.

hyderus o ran anabledd CYFLOGWR

Cyflogwr Cyflog Byw ydym ni

HYRWYDDO CYNHWYSIANT helpu cael gwared ar rwystrau
PROMOTING INCLUSIVITY helping to remove barriers

ARMED FORCES COVENANT CYFAMOD Y LLUOEDD ARFOG
EMPLOYER RECOGNITION SCHEME CYNLLUN CYDNABOD CYFLOGWYR
GOLD AWARD 2022 GWOBR AUR 2022

Live Fear Free Helpline
0808 80 10 800
call • text • live chat • email
Home shouldn't be a place of fear
Help is available 24/7

Cefnogwyr Pride Tân
Fire Pride Allies

safecall
Llinell Gymorth Gyfrinachol i Weithwyr

Rydym yn gyflogwr cyfle cyfartal ac yn croesawu ceisiadau gan bob rhan o'r gymuned. Rydym wedi ymrwymo i roi cyfle cyfartal i'r holl staff ac mae ceisiadau yn cael eu hannog gan unigolion waeth beth fo'u sefyllfa o ran oedran, anabledd, rhywedd, ailbennu rhywedd, cyfeiriadedd rhywiol, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred a phriodas a phartneriaethau sifil.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau yn y Gymraeg a'r Saesneg a byddwn yn ymateb yn gydradd i'r naill iaith ac yn ymateb yn eich iaith ddewisol heb oedi. Ni fydd ceisiadau sy'n cael eu cyflwyno yn Gymraeg yn cael eu trin yn llai ffafriol na rhai Saesneg.

Mae apwyntiadau'n amodol ar gynnal gwiriad Fetio Personél nad yw'n aelod o'r Heddlu (Non-Police Personnel Vetting NPPV), Cliriad DBS, Prawf Meddygol gan gynnwys prawf Cyffuriau ac Alcohol a geirdaon boddhaol.

Am ragor o fanylion am y rôl, cyfeiriwch at y pecyn gwybodaeth. I wneud cais, cwblhewch a chyflwynwch eich Ffurflen Cymeradwyaeth Rheolwr ar gyfer Dyrchafiad (ymgeiswyr mewnol yn unig) a ffurflen gais lawn gyda'i gilydd drwy e-bost i: recriwtio@tangogleddcymru.llyw.cymru cyn y dyddiad cau isod.

Rhagwelir y bydd yr Asesiadau Rheoli a Gorchymyn Digwyddiadau yn digwydd cyn y cam cyfweliad, gyda chyfweliadau'n cael eu cynnal dros nifer o ddyddiau gan ddechrau o **3 Medi 2026**. Sylwer, os nad yw ymgeiswyr yn gallu mynychu ar eu dyddiad cyfweliad wedi'i drefnu, efallai y bydd y Gwasanaeth yn gallu gwneud trefniadau amgen lle bo hynny'n rhesymol ymarferol.

I gael sgwrs anffurfiol am y swydd hon, cysylltwch â'r Rheolwr Grŵp Ros Thomas, Pennaeth yr Ystafell Reoli drwy ebostio ros.thomas@tangogleddcymru.llyw.cymru neu ffonio 07787578365

**Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ffurflenni cais yw**
**12:00 ar 21ain o Awst 2026**

*Cedwir at y dyddiad cau yn llym ac ni chaniateir unrhyw eithriadau.*